**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 16/05/2019**
**NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.12PM**
**(YN DILYN Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL (CCB))**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Cyngh. Gareth Owen (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod misol a ddilynodd y CCB. Balch oedd aelodau i weld bod y Gyngh. Mair Jones yn well ac yn bresennol yn ystod y cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Gareth Owen (Is-Gadeirydd); Y Cynghorydd John Jones; Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Non Jones; Y Cynghorydd Wil Lewis; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Doug. Rowbotham; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Eleri Thomas, Clerc. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Gynghorwraig Angharad Jones (Cadeirydd) a'r Gynghorwraig Clare Hughes oherwydd salwch.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:** Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans na fu unrhyw droseddau, achosion o fyrgleriaeth; difrod na lladrata yn ystod y mis diwethaf.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'u datgan.

**6. CADARNHAU COFNODION O'R 18FED EBRILL 2019**

**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Laura Jones) **EILIWYD** (y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 18fed o Ebrill 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Casglu Sbwriel:** 30.04.2019 am 5pm o gwmpas y pentref a'r ardal gerllaw. Adroddwyd bod y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones am ddatgan diolchiadau i bawb a gynigiodd help llaw i gasglu sbwriel. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i'r Red Lion am ddarparu lluniaeth ar ôl y weithgaredd.

**7.2 Glan-yr-Afon**: parthed tanc olew sy'n amharu ar y llwybr cerdded Glan-yr-Afon. *Ceisir gwybodaeth pellach.*

**7.3 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos:** Cadarnhaodd Mr Emeseh, Cyngor Sir Ceredigion fod y broses o neilltuo tir wedi dirwyn i ben yn ddiweddar a phenodir contractwr yn fuan i gyflawni'r gwaith. Rhaglennir y gwaith i gychwyn ym mis Ebrill 2019. Adroddwyd bod y Gyngh. Clare Hughes wedi symud y blychau blodau o'r safle. *Disgwylir gwybodaeth pellach.*

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2018**: wedi cymryd lle'n ystod Mehefin 2018. **Cytunwyd:** Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen. Dywedwyd bod hoelion yn gwthio allan o'r Twnel a bod angen trwsio'r pren. Cytunwyd i glustnodi sylw pellach i'r materion hyn cyn yr Archwiliad Ardal Chwarae ROSPA a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2019.

**7.5** **Arwydd Ffordd: Lleihau Cyflymder:**Cysylltwyd â Rebus, Stad Ddiwydiannol, Aberystwyth ac archebwyd arwydd. *Dim Datblygiadau pellach.*

**7.6** **Camfeydd:** Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis, Cyngor Sir Ceredigion yn datgan bod y camfeydd yng nghyffiniau'r Parc Carafanau wedi eu hatgyweirio. O ran y llwybr troed sy'n rhedeg o'r ysgol i Ffair Rhos, bydd angen i Mr Lewis gysylltu â'r Cynghorydd Doug Rowbotham. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r camfeydd oedd angen yng nghyffiniau Lôn Dywyll (yn ardal Dolebolion) ac ar y llwybr o Dynrhos i Danrhydiau (yng nghyffiniau Llwyngog).

**8.** **GOHEBIAETH**

**8.1** **Mynyddoedd Cambrian:** yn gweithio ar gynlluniau/ceisiadau i gael statws **Lleoliad Darganfod yr Wybren Dywyll** yn y gymuned.
**Lleoliad Arfethedig:** Coed y Bont.
Bydd arbennigwr yn y maes yn ymwneud â'r gwaith.
Mae twristiaeth yr wybren dywyll ar gynnydd ac yn debygol iawn o ddod ag ymwelwyr i'r ardal dydd a nos.
Mae'r mudiad Mynyddoedd Cambrian yn cydweithio â Pharc Bannau Brycheiniog ar y prosiect Wybren Dywyll.
**Gellir dod o hyd i wybodaeth am**
**Safleoedd Darganfod yr Wybren Dywyll o:**
https://www.darkskydiscovery.org.uk/dark-sky-discovery-sites/map.html
Mae tudalen ar gynnig ar safle ar y we'r *Mynyddoedd Cambrian* yn ymwneud â'r uchod sef:
https://www.thecambrianmountains.co.uk/discover-dark-skies
Os oes, awgrymiadau ar gynnig gan Gynghorwyr dylid eu cyflwyno erbyn y 1.07.2019.

**8.2** **Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

**9.** **CYLLID**

**9.1** **Cyflog y Clerc: Mai 2019**: £193.83 (Gross).

**9.2** **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.
*Yn disgwyl taliad.*

**9.3** **Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod nesaf.

**9.4** **Archwiliad Ariannol Mewnol / Allanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018-19:** Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: Bydd Mrs Enid Hughes yn ymwneud â'r Archwiliad Mewnol yn ystod yr wythnosau nesaf. Dylid cyflwyno dogfennau gerbron yr Archwilwyr Allanol Grant Thornton erbyn y 1af o Orffennaf 2019.

**9.5** **Hawliau Arwyddo (llyfr siec Cyngor Cymuned Ystrad Fflur) –** 2/3 y Gyngh. Clare Hughes; y Cyngh. Non Jones a'r Cyngh. Doug. Rowbotham. Penderfynwyd ail-asesu'r sefyllfa yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

**9.6** **Ceisiadau Ariannol:** Ceredigion Age Cymru & Bobath,
Canolfan Therapi Plant Cymru.

**10.** **CYNLLUNIO**

**10.1** **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion (CDLl) 2018 – 2033**:
**Adroddiad Cwmpasu**
**Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) ac**
**Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (yr Awdurdod) gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar y CDLl.

Mae a wnelo'r ymgynghori hwn â'r Adroddiad Cwmpasu sef cam cyntaf proses yr AG/AAS ac mae'n nodi'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu asesu cynaliadwyedd y CDLl maes o law. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ychwanegol at ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda CNC a Cadw ym mis Ebrill 2018.

Mae trosolwg un dudalen o broses yr AG/AAS, y CDLl a'r berthynas rhyngddynt wedi cael ei gynhyrchu i cynorthwyo dealltwriaeth am pwrpas yr ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu.

Bydd copi o Adroddiad Cwmpasu AG/AAS Ceredigion ar gael i'w archwilio o 14 Mai 2019 ymlaen https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=22190.

Byddai'r Awdurdod yn falch o gael sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Adroddiad Cwmpasu'r AG/AAS – amgaeir rhestr o'r cwestiynau penodol yr hoffai'r Awdurdod ystyriaeth ar: https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=22190 . Dylid anfon sylwadau'n ysgrifenedig at Polisi Cynllunio, Neuadd y Sir, Stryd y Farchnad, Aberaeron, Ceredigion SA46 0AT neu ar e-bost: ldp@ceredigion.gov.uk erbyn canol dydd 19 Mehefin 2019. Ni ellir ystyried sylwadau hwyr. Os oes angen mwy o wybodaeth gellir cysylltu â'r tîm polisi ar ldp@ceredigion.gov.uk neu 01545 572123.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Mae angen tocio'r berth gerllaw Wellington House** ar y Lôn Fach. Cytunwyd i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion a thrigolion Wellington House.

**11.2 Dywedwyd nad oedd padiau'r blychau diffibriliwr** y Pentref fel arfer yn cael eu hadnewyddu. Y Cyngor Cymuned i dalu £56 - £90 (heb TAW). Diolchwyd i Mrs Neli Jones a'r teulu Arch am eu cyfraniadau.

**11.3 Coed Ffair Rhos**: Torrwyd i lawr 11 o goed ffawydd aeddfed ar dir lleol yn ystod tymor nythu adar ar y 13 Ebrill 2019. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn clustnodi sylw i'r mater. Y Cynghorydd Sir Ifan Lloyd-Davies i ddarganfod petai rheolau penodol wedi eu torri.

**11.4 Nodwyd bod fan Post Brenhinol** heb fod ar ddyletswydd wedi'i barcio'n agos at Gapel Rhydfendigaid yn rheolaidd.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 7.50 pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 20fed Mehefin 2019 at 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)